

Mr Kevin Shields
Mental Health Care UK
Alexander House
Highfield Park
Llandyrnog
Sir Ddinbych
LL16 4LU

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

5 Awst 2014

Annwyl Mr Shields,

Parthed: Ymweliad ag Ysbyty Dewi Sant ar 23 a 24 Gorffennaf 2014

Fel y gwyddoch fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Dewi Sant ar 23 a 24 Gorffennaf 2014. Fe wnaeth ein hymweliad amlygu meysydd sy'n nodedig ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Y ffordd y gwnaeth staff ymgysylltu â'r broses arolygu, yn enwedig faint o wybodaeth oedd gan y nyrs gofrestredig a oedd â gofal am y sifft nos ar 23 Gorffennaf ynglŷn â'r grŵp o gleifion.
- Y berthynas gadarnhaol a welwyd rhwng cleifion a staff.
- Roedd cychwyn cyfarfodydd arweinyddiaeth glinigol yn fenter gadarnhaol.
- Menter y broses Llywodraethu Lleol, gan gynnwys cydymffurfiaeth ag archwiliadau a dadansoddiad o ddigwyddiadau.
- Yr ystod o grwpiau therapiwtig sy'n cael eu cynnal, gan gynnwys grŵp troseddwyd rhyw.
- Yr ystod eang o weithgareddau a oedd ar gael yng nghanolfan ddydd/gweithgareddau Coed Bach.

- Gwelwyd fod safon y bwyd yn dda iawn. Roedd staff a chleifion yn bwyta gyda'i gilydd, gan arwain at brofiad cadarnhaol yn ystod amser bwyd.

Fe wnaeth ein hymweliad amlygu nifer o faterion hefyd. Fe ddarparon ni drosolwg ar lafar o'n pryderon ar gyfer eich rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 24 Gorffennaf 2014. Ceir crynodeb o'r rhain, sy'n cynnwys methiannau rheoleiddiol, yn y tabl isod:

Mater sy'n peri pryder	Rheoliad
1. Roedd yr ysbyty'n defnyddio nifer sylweddol o staff asiantaeth. Ym mis Gorffennaf cyflenwodd gweithwyr asiantaeth 14 o sifftiau nyrsys cofrestredig a 47 o sifftiau gweithwyr cymorth. Ym mis Mehefin, cafodd 15 sifft eu cyflenwi gan nyrsys asiantaeth a chafodd 59 sifft eu cyflenwi gan weithwyr cymorth asiantaeth. Rhaid i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â'r diffygion o ran staffio.	Rheoliad 20 (1) (a) a (b)
2. Rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried strategaethau recriwtio a chadw effeithiol ar gyfer recriwtio a chadw staff. Yn y 12 mis diwethaf, roedd 14 aelod o staff wedi gadael Ysbyty Dewi Sant, gan gynnwys 4 nyrs ac 8 gweithiwr cymorth.	Rheoliad 20 (1) (a)
3. Wrth adolygu pedair set o ddogfennaeth gofal, canfuwyd y materion canlynol: - Roedd y daflen manylion derbyn ar gyfer claf A yn wag, heb unrhyw gofnod o ddyddiad geni'r claf, dyddiad ei dderbyn, ei statws o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac ati. Canfuwyd copi electronig a oedd wedi'i gwblhau'n rhannol. - Nid oedd unrhyw asesiadau risg/cynlluniau gofal wedi'u llunio ar gyfer claf A. - Roedd claf A yn cael arsylwadau 1:1 ond nid oedd cynllun gofal wedi'i sefydlu. - Nid oedd cynllun gofal ar gyfer claf B mewn perthynas ag ymweliadau ag Ysbyty Dewi Sant gan ei fam a'i ffrind. - Nid oedd y cynllun gofal rheoli pwysau ar gyfer claf C yn cynnwys unrhyw nodau penodol o ran ei bwysau targed. - Roedd gwerthusiad gwael wedi cael ei gynnal o'r cynllun gofal iechyd a rheoli pwysau ar gyfer claf C. - Sylwadau amhriodol yng nghofnod clinigol y Tîm Amlasiantaethol (TA) ar gyfer claf C a oedd wedi cael eu croesi allan wedyn. - Nid oedd cynllun gofal rhyddhau wedi'i	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)

sefydlu ar gyfer claf C. i. Nid oedd cynlluniau gofal ar gyfer claf C yn adlewyrchu proses y TA. j. Roedd claf D yn cael arsylwadau 1:1 ond roedd y cynllun gofal yn nodi arsylwadau lefel 2, bob 15 munud. k. Roedd diffyg llofnodion claf a staff ar y cynlluniau gofal ar gyfer claf D. l. Nid oedd y cynlluniau gofal ar gyfer claf D yn adlewyrchu proses y TA, er enghraifft y drafodaeth a'r penderfyniad ynglŷn ag arsylwadau 1:1 ar gyfer y claf yma. m. Nid oedd y cynllun gofal monitro diabetig ar gyfer claf D yn cynnwys digon o fanylion ynghylch monitro'r cyflwr. Rhaid rhoi sylw i bob maes a nodir. 4. Dywedodd dau glaf nad oeddent yn ymwybodol o'u cynlluniau gofal ac nad oeddent wedi bod yn rhan o'r broses o'u creu. Rhaid i'r holl gleifion fod yn ymwybodol a chael y cyfle i ddarparu mewnbwn ar gyfer eu cynlluniau gofal a chael copi os ydynt yn gofyn. 5. Rhaid cyflwyno cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol¹ ar gyfer yr holl gleifion. Maent yn ddull a dderbynnir yn rhyngwladol ac wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o gyrff awdurdodol cydnabyddedig oherwydd eu cryfderau a'u llwyddiannau. 6. Mae dau glaf (E/F) wedi bod yn yr ysbyty ers 2005 a 2008 yn y drefn honno. Mae gofyn cynnal adolygiad o'r cleifion hyn i benderfynu a yw'r lleoliad yn dal i fod yn briodol. 7. Roedd yr wybodaeth a oedd ar gael i gadarnhau gwybodaeth a phrofiad staff asiantaeth yn amrywiol. Nid oedd unrhyw brofiad wedi'i ddogfennu ar gyfer rhai staff asiantaeth i sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir ar gyfer y cleifion yn Ysbyty Dewi Sant. Rhaid bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am yr holl staff asiantaeth.	Rheoliad 9 (1) (g) a 15 (1) (a) (b) ac (c) Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) ac 19 (2) (d) ac (e) Rheoliad 20 (1) (b)
--	---

¹ Mae dulliau cymorth ymddygiad cadarnhaol wedi ennill eu plwyf fel y dull a ffafrir wrth weithio gyda phobl ag anableddau dysgu sy'n dangos ymddygiad a ddisgrifir fel ymddygiad heriol. I gael mwy o wybodaeth ewch at y dudalen we <http://www.bild.org.uk/our-services/positive-behaviour-support/>

8. Roedd rhai ffurflenni sefydlu ar gyfer staff newydd, staff asiantaeth a staff banc heb unrhyw ddyddiadau, heb unrhyw lofnodion staff a dim ond yn rhannol yr oeddent wedi'u cwblhau. Rhaid i'r rhaglen sefydlu ar gyfer yr holl staff gael ei dogfennu'n llawn.	Rheoliad 20 (1) (a) a (b) (2) (c)
9. Mae diffyg system oruchwyllo gyson o hyd. Rhaid rhoi system oruchwyllo gadarn ar waith ar gyfer yr holl staff.	Rheoliad 20 (2) (a)
10. Mae angen gwneud peth wmbredd o waith adnewyddu i amgylchedd yr ysbyty o hyd. Rhaid i'r rhaglen adnewyddu sy'n mynd rhagddi barhau.	Rheoliad 26 (2) (b) (c)
11. Yn ystod ein hymweliad roedd pedwar claf yn cael arsylwadau 1:1 a oedd i'w weld yn ormodol ar gyfer gwasanaeth adsefydlu cloëdig. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig fwrw golwg ar y cymysgedd o gleifion i sicrhau bod cleifion a dderbynnir i Ysbyty Dewi Sant yn ymlynu wrth yr amodau cofrestru i sicrhau amgylchedd adsefydlu cyson, gan alluogi cleifion i bontio'r bwloch rhwng yr ysbyty a byw yn y gymuned.	Rheoliad 19 (1) (a) (b)

Monitro Dan y Ddeddf Iechyd Meddwl – Gweinyddu'r Ddeddf

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer 3 o'r cleifion dan gadwad a oedd yn cael gofal yn Ysbyty Dewi Sant ar adeg ein hymweliad. Gwelwyd yr arferion nodedig canlynol:

- Roedd gwybodaeth ddarluniadol a hawdd i'w darllen ar gael ac wedi'i pharatoi'n unigol i ddiwallu anghenion cleifion.
- Roedd systemau da'n bodoli ar gyfer negeseuon atgoffa amserol.
- Roedd systemau da'n bodoli ar gyfer craffu'n rheolaidd ar ddogfennau cyfreithiol a phrosesau gweinyddol. Roedd hyn yn digwydd yn barhaus wrth i gleifion newydd gael eu derbyn i Ysbyty Dewi Sant.

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **27 Awst 2014** a hwnnw'n nodi'r camau gweithredu yr ydych eisoed wedi'u cymryd yn ogystal â'r rhai yr ydych yn bwriadu'u cymryd i fynd i'r afael â'r holl faterion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion y sawl a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cam gweithredu. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol bydd yn ofynnol i chi ddarparu diweddariadau misol ar gynydd.

Ar ôl derbyn y llythyr hwn mae'n ofynnol i chi wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y manylion a nodir ac ar ôl i ni gael eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheoli hwn a chopi o'ch cynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Gallwn gynnal ymweliad pellach i sicrhau bod y materion uchod wedi cael sylw priodol a byddwn yn cynnal ymweliadau mwy mynych os byddwn yn pryderu nad yw camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cyflawni'n brydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Sean Holcroft, Rheolwr Ysbyty Dewi Sant.

Yn gywir



Mr John Powell

Pennaeth Rheoleiddio

cc Mr Sean Holcroft, Ysbyty Annibynnol Dewi Sant, Carrog, Corwen, LL21 9BG